



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

YSTADEGAU

# Profi, Olrhain, Diogelu (olrhain cysylltiadau ar gyfer coronafeirws (COVID-19)): hyd at 28 Tachwedd 2020

Diweddariad gwybodaeth reoli ar olrhain cysylltiadau a ddarparwyd fel rhan o'r strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru, hyd at 28 Tachwedd 2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Rhagfyr 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 3 Rhagfyr 2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

## 1. Beth yw olrhain cysylltiadau?

---

## 2. Prif ganlyniadau

---

## 3. Yr amser a gymerir i gyrraedd achosion positif a chysylltiadau agos

---

## 4. Data ar gyfer 1 i 21 Mehefin

---

## 5. Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

---

## 6. Manylion cyswllt

---

# 1. Beth yw olrhain cysylltiadau?

Mae olrhain cysylltiadau yn rhan bwysig o **strategaeth Profi, Olrhain, Diogelu** y Llywodraeth Cymru. Mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu drwy wasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru.

Cyn gynted ag y bydd pobl yn dechrau dangos symptomau o coronafeirws (COVID-19), dylent drefnu prawf mor gyflym â phosibl wrth iddyn nhw, a'r bobl sy'n byw yn yr un tŷ â nhw, hunanynysu. Mae olrhain cysylltiadau yn ddibynnod ar brofion yn cael eu cymryd yn gyflym. Ar ôl cael canlyniad positif, gofynnir i bobl gefnogi gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu GIG Cymru drwy roi gwybod i'r swyddog olrhain cysylltiadau lleol am eu cysylltiadau diweddar fel y gellir cysylltu â nhw a gofyn iddynt hunanynysu (a chymryd prawf os ydynt hefyd yn dangos symptomau), er mwyn helpu i atal lledaeniad y feirws.

Efallai na fydd yn bosibl olrhain pob unigolyn sy'n cael ei gyfeirio at y gwasanaeth olrhain cysylltiadau. Am amryw o resymau, ni fydd manylion cysylltu wedi'u darparu ar gyfer rhai unigolion ac mae'n bosibl nad yw eraill wedi ymateb

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

i alwadau, negeseuon testun neu e-byst gan dimau olrhain. Dim ond yr achosion hynny y'u cyrhaeddwyd yn llwyddiannus sydd wedi'u cynnwys yng nghyfran yr achosion positif a oedd yn gymwys i'w olrhain, ac nid yw'n cynnwys yr achosion hynny y mae timau olrhain lleol wedi ceisio cysylltu â nhw.

Mae'r data yn y datganiad yma yn wybodaeth reoli sy'n cael eu casglu fel rhan o'r broses olrhain cysylltiadau. Nid yw'r data wedi'u casglu at ddibenion ystadegau swyddogol, ac felly nid oes gan y data yr un lefel o sicrwydd ansawdd ag ystadegau swyddogol a bydd yn destun i ddiwygiadau yn y dyfodol. Rydym yn cyhoeddi hyn i ddarparu crynodeb wythnosol o weithgarwch olrhain cysylltiadau yng Nghymru yn ystod y pandemig coronafeirws (COVID-19).

## 2. Prif ganlyniadau

Rhwng 22 a 28 Tachwedd 2020:

- o blith y 6,434 o achosion positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, cyrhaeddwyd 5,933 (92%) a gofyn iddynt ddarparu manylion y bobl y maent wedi dod i gysylltiad â nhw yn ddiweddar
- o blith y 22,229 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys i'w holrhain, cysylltwyd a chynghorwyd â 18,857 (85%) yn llwyddiannus, neu chafwyd eu hachos ei ddatrys yn syth

Yn gyfan gwbl, ers 21 Mehefin 2020:

- o blith y 55,360 o achosion positif a oedd yn gymwys i'w holrhain, cyrhaeddwyd 54,253 (98%) a gofyn iddynt ddarparu manylion y bobl y maent wedi dod i gysylltiad â nhw yn ddiweddar
- o blith y 165,595 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys i'w holrhain, cysylltwyd a chynghorwyd â 152,554 (92%) yn llwyddiannus, neu chafwyd eu hachos ei ddatrys yn syth

### Tabl 1: Achosion positif a atgyfeiriwyd at y system olrhain cysylltiadau, hyd at 28 Tachwedd 2020

Wythnos      Cyfanswm cronus 21

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

	ddiweddaraf 22 i 28 Tachwedd 2020	Mehefin i 28 Tachwedd 2020
Achosion cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	6,434	55,360
Achosion anghymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	1,227	10,535
<b>Cyfanswm</b>	<b>7,661</b>	<b>65,895</b>

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Darperir gwybodaeth am y math o achosion nad ydynt yn gymwys ar gyfer camau dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol yn yr [adran am ansawdd a methodoleg](#).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 1: Achosion positif cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 28 Tachwedd 2020



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

## Tabl 2: Pobl a gadarnhawyd yn gysylltiadau agos, hyd at 28 Tachwedd 2020

	Wythnos ddiweddaraf 22 i 28 Tachwedd 2020	Cyfanswm cronnus 21 Mehefin i 28 Tachwedd 2020
Achosion cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	22,229	165,595
Achosion anghymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol	414	5,847

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

---

	Wythnos ddiweddaraf 22 i 28 Tachwedd 2020	Cyfanswm cronus 21 Mehefin i 28 Tachwedd 2020
<b>Cyfanswm</b>	22,643	171,442

---

Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r holl gysylltiadau agos a nodwyd yn y cyfnod adrodd dan sylw. Mae'n bosibl y bydd rhai wedi'u nodi drwy achosion positif a atgyfeiriwyd at y system olrhain cysylltiadau cyn y cyfnod adrodd. Gall y ffigurau hefyd gynnwys rhai cysylltiadau agos sy'n gymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol a nodwyd gan achosion cadarnhaol a gafodd eu trosglwyddo i dimau rhanbarthol i'w rheoli ymlaen.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Siart 2: Cysylltiadau agos cymwys i'w holrhain gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 28 Tachwedd 2020




Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

### Siart 3: Achosion positif dyddiol sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 28 Tachwedd 2020



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru


Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



## Siart 4: Cysylltiadau agos dyddiol sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol, hyd at 28 Tachwedd 2020



Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

Mae Siartiau 3 a 4 yn cynrychioli'r nifer ddyddiol o achosion positif a'r cysylltiadau agos sy'n gymwys i gael cyswllt dilynol. Gall nifer yr achosion sy'n gymwys am gyswllt dilynol ar gyfer yr wythnosau diwethaf fod ychydig yn wahanol i'r cyhoeddiadau blaenorol oherwydd bod achosion wedi'u nodi fel rhai anghymwys yn dilyn ymchwiliad pellach gan dimau olrhain cysylltiadau. Gallwch weld rhagor o fanylion am y broses hon yn yr [adran wybodaeth am ansawdd a methodoleg](#).

Mae'r amrywiad rhwng diwrnodau yn adlewyrchu'r gwahaniaeth yn y galw ar y system (e.e. nifer y profion a gynhaliwyd). Bydd mwy o achosion yn cyrraedd y timau olrhain cysylltiadau ar rai dyddiau, ac yn dibynnu ar y galw, gall fod ôl-gronid o achosion o'r dyddiau blaenorol. Gall brig mewn achosion positif neu gysylltiadau agos ddigwydd o ganlyniad i: ôl-gronid o achosion o ddyddiau blaenorol, swp mawr o ganlyniadau profion yn cael eu cyflwyno, safle profi

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

newydd yn agor neu fwy o gapasiti profi ar gael.

### **3. Yr amser a gymerir i gyrraedd achosion positif a chysylltiadau agos**

#### **Rhwng 22 a 28 Tachwedd 2020**

##### **Achosion positif**

- O'r 6,434 o achosion positif a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol, cyrhaeddwyd 76% ohonynt o fewn 24 awr o gael eu hatgyfeirio i'r system olrhain cysylltiadau. Mae hyn gyfystyr â 82% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 24 awr.
- Cyrhaeddwyd 89% o achosion positif a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol o fewn 48 awr. Mae hyn gyfystyr â 96% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 48 awr.

##### **Cysylltiadau agos**

- O'r 22,229 o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol, cyrhaeddwyd 64% ohonynt o fewn 24 awr o gael eu nodi gan achos positif. Mae hyn gyfystyr â 75% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 24 awr.
- Cyrhaeddwyd 74% o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol o fewn 48 awr o gael eu nodi gan achos positif. Mae hyn gyfystyr â 87% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 48 awr.
- Cyrhaeddwyd 26% o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol o fewn 24 awr i pan y cafodd yr achos positif â'u nodwyd ei atgyfeirio i'r system olrhain cysylltiadau. Mae hyn gyfystyr â 31% o'r rheini y llwyddwyd i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 24 awr.
- Cyrhaeddwyd 50% o gysylltiadau agos a oedd yn gymwys ar gyfer camau dilynol o fewn 48 awr i pan y cafodd yr achos positif â'u nodwyd ei atgyfeirio i'r system olrhain cysylltiadau. Mae hyn gyfystyr â 59% o'r rheini y llwyddwyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

i'w cyrraedd yn cael eu cyrraedd o fewn 48 awr.

## 4. Data ar gyfer 1 i 21 Mehefin

Roedd yr adroddiadau cynnar, ar gyfer tair wythnos gyntaf olrhain cysylltiadau yng Nghymru, wedi'u seilio ar ddata gan dimau olrhain cysylltiadau lleol a rhanbarthol cyn cyflwyno'r system ddigidol genedlaethol.

Yng Nghymru, yn ystod y cyfnod rhwng 1 a 21 Mehefin 2020, cyfeiriwyd 1,905 o achosion positif at dimau olrhain cysylltiadau lleol a rhanbarthol. Arweiniodd hyn at adnabod 2,616 o gysylltiadau i'w holrhain. Cysylltwyd â 2,117 o'r rhain yn llwyddiannus a'u cynghori.

Bydd rhywfaint o orgyffwrdd yn y ffigurau a nodir o'r system ddigidol genedlaethol a'r adroddiadau cynnar a ddarparwyd gan dimau olrhain cysylltiadau lleol a rhanbarthol. O ganlyniad, ni fyddem yn argymhell cyfuno ffigurau o'r ddwy ffrwd adrodd wahanol. Yn y datganiad cyfredol ac mewn fersiynau o'r datganiad hwn yn y dyfodol, bydd y dull adrodd cronol yn canolbwyntio ar ddata o 21 Mehefin 2020 ymlaen.

## 5. Gwybodaeth ansawdd a methodoleg

### Ffynhonnell data

Gwybodaeth rheoli yw'r data hyn a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru gan GIG Cymru Gwasanaeth Gwybodeg. Rydym yn cyhoeddi hyn er mwyn rhoi crynodeb wythnosol o weithgarwch olrhain cysylltiadau yng Nghymru yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Nid yw'r data hyn wedi mynd drwy'r un lefel o sicrhau ansawdd ag ystadegau swyddogol a gellid diwygio'r data yn y dyfodol.

Cafodd y data yn y datganiad hwn eu tynnu o'r system olrhain cysylltiadau am 10:15 ar 01 Rhagfyr 2020. Tynnwyd y data hyn 3 diwrnod ar ôl diwedd y cyfnod adrodd er mwyn cynnwys gweithgarwch olrhain a oedd yn ymwneud ag achosion a atgyfeiriwyd tua diwedd y cyfnod adrodd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Achosion positif a chysylltiadau agos nad ydynt yn gymwys i gael camau dilynol

Mae'r mwyafrif o achosion anghymwys i'w holrhain gan swyddogion olrhain cysylltiadau lleol yn digwydd mewn lleoliadau caeedig megis ysbytai, cartrefi gofal a charchardai. Caiff yr achosion hyn eu huwchgyfeirio at dimau rhanbarthol i'w rheoli ymhellach.

Nid yw achosion positif a chysylltiadau agos nad ydynt yn preswyllo yng Nghymru yn gymwys i gael camau dilynol gan dimau olrhain cysylltiadau lleol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn atgyfeirio'r achosion hynny i'r asiantaeth iechyd y cyhoedd perthnasol er mwyn iddynt gael eu holrhain ymhellach. Byddai'r achosion hyn wedi cael eu cynnwys yn y niferoedd sy'n gymwys i gael camau dilynol yn y datganiadau ystadegol cyn 10 Medi.

## Yr amser a gymerir i gyrraedd achosion positif a chysylltiadau agos

Ar gyfer achosion positif, mae'r amser a gymerir i'w cyrraedd yn mesur yr amser rhwng atgyfeirio'r achos i'r system olrhain cysylltiadau, a phan y llwyddir i gysylltu â hwy. Ar gyfer cysylltiadau agos, roedd dau fesurydd. Mae'r cyntaf yn edrych ar yr amser rhwng pan caiff y cysylltiad agos ei nodi gan achos positif, a phan y llwyddir i gysylltu ag ef. Mae'r ail fesurydd yn edrych ar y gwahaniaeth rhwng pan y cafodd yr achos positif a nododd y cyswllt ei atgyfeirio i'r system olrhain cysylltiadau, a phan y llwyddwyd i gysylltu â'r cyswllt agos.

Mae'r mesur olaf yn eithrio nifer fach o gysylltiadau agos ni ellid eu cysylltu'n ôl â'r achos cadarnhaol a'u nododd.

Caiff y dyddiad a'r amser pan lwyddwyd i gysylltu ag achos positif neu gyswllt agos eu hystyried fel y cyntaf o nifer o ddigwyddiadau a gofnodir yn y system. Mae'r rhain yn cynnwys:

- pan ceir cofnod o alwad ffôn lwyddiannus
- pan cynhelir cyfweiliad gyda'r cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- pan ceir y gwiriad dyddiol cyntaf
- pan fydd cysylltiadau agos neu gysylltiadau eraill yn dod yn rhan o'r system olrhain cysylltiadau (ar gyfer achosion positif yn unig)
- pan nodir bod yr achos 'wedi'i ddatrys'

Dewiswyd y digwyddiadau hyn oherwydd eu bod oll yn dangos bod aelod o'r tîm olrhain cysylltiadau wedi cysylltu'n llwyddiannus â'r unigolyn. Mae'r ystod o ddigwyddiadau yn angenrheidiol oherwydd na cheir cofnod o alwadau ffôn ar gyfer pob achos positif a chysylltiad agos. Gallai hyn godi, er enghraifft, lle mae amryw o achosion ymhlith unigolion sy'n byw ar yr un aelwyd a lle caiff yr wybodaeth ei chofnodi drwy un alwad ffôn yn unig, yn hytrach na galwad ffôn yr un ar gyfer pob unigolyn.

## **Rhagor o wybodaeth am ansawdd a methodoleg**

Mae achosion cysylltiadau agos a gafodd eu datrys ryw ffordd arall yn cynnwys nifer bach o achosion pan gafodd yr un cysylltiad ei nodi gan fwy nag un achos positif ar yr un pryd. Bryd hynny, bydd timau olrhain cysylltiadau yn gweithio o un cofnod ar gyfer y cyswllt hwnnw ac yn nodi ar y cofnodion ychwanegol fod yr achos wedi'i ddatrys.

Mae nifer yr achosion a gyfeiriwyd ar gyfer olrhain cysylltiadau yn wahanol i nifer yr achosion newydd a gyhoeddir gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Ni ellir cymharu'r ffynonellau data yma gyda'i gilydd yn uniongyrchol oherwydd gwahaniaethau o ran amseru a lefel y dilysu a wneir, gan fod angen i achosion a gyflwynir i'r system olrhain cysylltiadau gael eu trin â llaw gan dimau olrhain cysylltiadau.

O 21 Hydref 2020, mae cynllun peilot cyfyngedig iawn wedi'i redeg i asesu'r potensial i ddefnyddio'r seilwaith ac adnodd olrhain cyswllt i hefyd rhoi cyngor i deithwyr sy'n dychwelyd o gyrchfannau tramor. Trwy'r gweithgaredd peilot hwn, sefydlir achosion ychwanegol o fewn y system sydd ddim yn ddarostyngedig i'r un gweithdrefnau a phrosesau dilynol sy'n gysylltiedig ag olrhain cyswllt. Yr achosion hyn yn cael effaith fach iawn ar y ffigurau a gyflwynir yn y datganiad yma (yn cynrychioli llai na 3% o achosion wythnosol).

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Statws Ystadegau Gwladol

Nid yw'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol. Ond cyn belled ag sy'n ymarferol, maent wedi'u casglu a'u dilysu yn unol â'r pileri a'r egwyddorion yn y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#). Rydym yn parhau i ddatblygu'r data a gasglwyd a'r broses sicrwydd ansawdd i wella'r data.

Cynhyrchwyd yr ystadegau hyn yn gyflym mewn ymateb i ddatblygiadau ar draws y byd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant ar gyfer Cymru. Diben y nodau yw creu Cymru sy'n fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth, iachach a chyfrifol yn fyd-eang, gyda chymunedau cydlynus, a diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ('dangosyddion cenedlaethol') y mae'n rhaid eu defnyddio at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth ar y dangosyddion, ynghyd â disgrifiad o bob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach ar [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd gyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol a gellir eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer llunio asesiadau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Diweddariad nesaf

Datganiad ystadegol wythnosol yw hwn ar hyn o bryd. Bydd yn cael ei gyhoeddi am 09:30 am bob dydd Iau. Byddwn yn adolygu hyn yn unol ag anghenion newidiol y defnyddwyr.

Bydd y datganiad nesaf yn cael ei gyhoeddi ddydd Iau 10 Rhagfyr.

## Rydym eisiau eich adborth

Rydym yn croesawu adborth ar unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn. Gallwch anfon adborth dros e-bost i [kas.covid19@llyw.cymru](mailto:kas.covid19@llyw.cymru).

## Gwybodaeth bellach

I gael gwybodaeth a chynghor ar olrhain cysylltiadau, ewch i'n tudalennau canllawiau [Profi, olrhain, diogelu: coronafeirws](#).

## 6. Manylion cyswllt

Ystadegydd: Alex Fitzpatrick  
Llinell Ymholiadau Cyffredinol  
Ffôn: 0300 025 5050  
E-bost: [kas.covid19@llyw.cymru](mailto:kas.covid19@llyw.cymru)

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 222/2020

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we [Profi, Olrhain, Diogelu \(olrhain cysylltiadau ar gyfer coronafeirws \(COVID-19\)\)](#): hyd at 28 Tachwedd 2020 a lawrlwythwyd.

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://llyw.cymru/profi-olrhain-diogelu-olrhain-cysylltiadau-ar-gyfer-coronafeirws-covid-19-hyd-28-tachwedd-2020-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).